Cyngor Cynulleidfa Cymru y BBC

CYFRINACHOL **CADARNHAWYD**

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YNG NGHANOLFAN DDARLLEDU'R BBC, LLANDAF DDYDD GWENER 07 MAWRTH 2008

Yn bresennol:

Aelodau'r Cyngor Cynulleidfa:

Janet Lewis-Jones (Cadeirydd ac Ymddiriedolwr Cenedlaethol dros Gymru)
Roy Grant
Arun Midha
Nicola Branson
Teresa Rees
Dafydd Whittall
Sangeet Bhullar

Staff BBC Cymru Wales:

Menna Richards, Rheolwr BBC Cymru Wales
Clare Hudson, Pennaeth Rhaglenni (Saesneg)
Keith Jones, Pennaeth Rhaglenni (Cymraeg) a Chyfryngau Newydd
Cathryn Allen, Pennaeth Datblygu Darlledu
Mark O'Callaghan, Pennaeth Newyddion a Materion Cyfoes
Rhodri Talfan Davies, Pennaeth Marchnata, Cyfathrebu a Chynulleidfaoedd BBC Cymru Wales

Staff Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru, Ymddiriedolaeth y BBC:

Karl Davies, Pennaeth Llywodraethu ac Atebolrwydd BBC Cymru Wales
Siôn Brynach, Ymgynghorydd Atebolrwydd BBC Cymru Wales
Clair Baguley, Cynorthwy-ydd Adrannol, Llywodraethu ac Atebolrwydd BBC Cymru Wales

Yn gwasanaethu:

Pat Loughrey, Cyfarwyddwr y Gwledydd a'r Rhanbarthau (ar gyfer eitem 13)
Fran O'Brien, Pennaeth Safonau Golygyddol, Uned Ymddiriedolaeth y BBC (ar gyfer eitem 16)
Yr Athro Tony King (ar gyfer eitem 17)
Michael Robinson (ar gyfer eitem 17)
Roly Keating, Rheolwr Sianel BBC TWO (ar gyfer eitem 18)

12. YMDDIHEURIADAU A CHYHOEDDIADAU

Dennis Gethin
Carl Cooper
Richard Lewis
Jane James

13. ADOLYGIAD O BERFFORMIAD BBC CYMRU WALES – PAT LOUGHREY, CYFARWYDDWR Y GWLEDYDD A'R RHANBARTHAU YN Y BBC

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwledydd a'r Rhanbarthau wrth y Cyngor bod *Coal House* wedi bod yn uchafbwynt amlwg i'r flwyddyn. Dywedodd bod y fenter aml-lwyfan hon wedi bod yn enghraifft nodedig o ddewrder golygyddol a gwaith marchnata o'r radd flaenaf, a nododd bod y gyfres wedi bod yn llwyddiant enfawr. Roedd wedi denu'r gynulleidfa fwyaf ers 6 blynedd ar gyfer rhaglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion a chwaraeon, a chafodd sgôr Mynegai Gwerthfawrogiad o 86 (y cyfartaledd ar gyfer y *genre* oedd 79). Dywedodd ei fod yn ystyried *Coal House* yn enghraifft wych o gyfres a oedd yn ymwneud â chynulleidfaoedd ar lefel emosiynol heb golli'r gallu i ymwneud â nhw ar lefel ddeallusol - rhywbeth nad oedd y BBC yn ei wneud yn dda iawn bob amser.

Pwysleisiodd Cyfarwyddwr y Gwledydd a'r Rhanbarthau ei bod yn hanfodol sicrhau bod Adran Newyddion a Materion Cyfoes BBC Wales yn newyddiadura ac yn gosod yr agenda mewn modd gwreiddiol. Dywedodd bod BBC Wales wedi gosod yr agenda newyddion ar sawl achlysur yn ystod 2007-08, gan ymdrin â storïau megis hanes y ddynes sâl a gafodd ei gorfodi i fynd yn ôl i Ghana o Gymru, ymadawiad Peter Hain â'i swydd fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru, etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r broses o sefydlu clymblaid rhwng Llafur a Phlaid Cymru yn Llywodraeth y Cynulliad yn dilyn yr etholiadau.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr at y ffaith bod BBC Cymru Wales yn parhau i gael canlyniadau ardderchog mewn perthynas â rhaglenni teledu a gomisiynir ar gyfer y Rhwydwaith, a nododd bod rhifyn arbennig o *Doctor Who* ar gyfer y Nadolig (a lwyddodd i ddenu cyfran o 52% / 13.3 miliwn o wylwyr), *Tribe, China's Terracotta Army, Torchwood* a *Sarah Jane Adventures* yn enghreifftiau o hynny. Yn ogystal, dywedodd wrth y Cyngor bod achos cryf yn cael ei gyflwyno am resymau creadigol ar hyn o bryd o blaid cynhyrchu rhaglenni y tu allan i Lundain ar sail llwyddiant ysgubol BBC Cymru Wales ar y Rhwydwaith.

Cyfeiriodd Rheolwr BBC Cymru Wales at Adolygiad Cyflenwi'r Rhwydwaith, gan ddweud bod y Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi ymrwymo i sicrhau bod o leiaf 17% o'r arian sydd ar gael i gomisiynu rhaglenni ar gyfer y Rhwydwaith yn cael ei wario yng ngwledydd unigol y DU. Roedd trafodaethau'n dechrau ar gynigion pendant i symud y gwaith o gynhyrchu rhaglenni teledu ar gyfer y Rhwydwaith i leoedd y tu allan i Lundain, gan gynnwys Cymru a'r Alban, ac roedd y rhagolygon ynghylch cynyddu nifer y rhaglenni a gynhyrchir yng Nghymru ar gyfer y Rhwydwaith yn ymddangos yn gadarnhaol ar hyn o bryd.

Aeth Cyfarwyddwr y Gwledydd a'r Rhanbarthau ymlaen i ddweud bod lefelau bodlonrwydd cynulleidfaoedd â'r BBC yn uwch yng Nghymru nag yn Lloegr a chryn dipyn yn uwch yng Nghymru nag yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, ond dywedodd nad oedd gan unrhyw un le i fod yn hunanfodlon.

Yn dilyn cyflwyno arlwy newydd ar Radio Cymru a Radio Wales, roedd nifer y bobl a oedd yn gwrando ar y ddwy orsaf wedi gostwng ychydig. Fodd bynnag, hysbysodd Cyfarwyddwr y Gwledydd a'r Rhanbarthau y Cyngor bod yr arwyddion cynnar yn awgrymu bod ystod oedran y gwrandawyr wedi gostwng ar gyfer y ddwy orsaf a'u bod nhw wedi llwyddo i gadw'u cynulleidfaoedd craidd. Roedd yr ymateb i'r newidiadau yn arlwy Radio Cymru wedi bod yn galonogol iawn, ac erbyn hyn mae 23% o wrandawyr yr orsaf rhwng 25 a 44 oed – fel rheol mae'n anodd denu'r rhan hon o'r gynulleidfa.

Wrth sôn am Gyfryngau Newydd, hysbysodd Cyfarwyddwr y Gwledydd a'r Rhanbarthau y Cyngor bod cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer y bobl a fu'n ymweld â */Wales* a */Cymru* yn ystod 2007/08, a dywedodd mai gwefan newyddion BBC Wales oedd y wefan orau o bell ffordd o safbwynt ei sgôr hyrwyddo net, o gymharu'r wefan â gwasanaethau eraill a geir ar *bbc.co.uk*.

Tynnodd y Cyngor sylw Cyfarwyddwr y Gwledydd a'r Rhanbarthau at y mater a oedd yn ymwneud â bwrdd bwletin a fforwm trafod *Scrum V*. Roedd y bwrdd bwletin wedi cael ei symud yn ddiweddar i adran Chwaraeon *bbc.co.uk*. Dywedodd aelodau'r Cyngor bod pobl wedi gwneud sylwadau'n anffurfiol ynghylch y ffaith bod bwrdd bwletin *Scrum V* wedi symud i frand *606 Radio 5 live*. Roedd ei symud wedi drysu rhai pobl, ac roedd eraill yn credu bod y gwasanaeth wedi dod i ben. Roedd y Cyngor o'r farn y dylid symud y bwrdd bwletin yn ôl i safle */Wales*.

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwledydd a'r Rhanbarthau wrth y Cyngor mai'r targed cyffredinol ar gyfer perfformiad rhaglenni disodli oedd sicrhau bod eu cyfran o'r gynulleidfa 1% yn fwy na chyfran y Rhwydwaith. Roedd Cymru wedi sicrhau cyfran a oedd 2.4% yn uwch na chyfran y Rhwydwaith (ei sgôr uchaf erioed), ac roedd wedi cyflawni hynny ar adeg pan oedd BBC ONE a BBC TWO yn arbennig o gryf yng Nghymru.

Wrth gyfeirio at raglenni unigol, dywedodd Cyfarwyddwr y Gwledydd a'r Rhanbarthau mai'r targed ar gyfer bwletinau newyddion Cymru oedd cyrraedd 42% o'r gynulleidfa bosibl, ond soniodd eu bod wedi cyrraedd 45% o'r gynulleidfa bosibl, sef 1.3 miliwn o bobl. Roedd *Wales Today* wedi llwyddo i gael sgôr Mynegai Gwerthfawrogiad o 79 - un pwynt yn fwy na'r cyfartaledd ar gyfer y DU. Cymeradwyodd y Cyngor yr elfen 'your stories' ar *Wales Today*, ac roedd yn ei hystyried yn elfen bwysig o safbwynt ymwneud â'r gynulleidfa.

Dywedodd y Cyfarwyddwr wrth y Cyngor bod y bwletin newyddion 8pm yn denu pobl hollol wahanol i'r gynulleidfa draddodiadol ar gyfer rhaglenni newyddion, ond nid oedd y duedd hon wedi bod mor drawiadol yng Nghymru, a hynny bron yn sicr oherwydd bod *Wales Today* yn llwyddiant mawr eisoes.

Roedd y sgorau Mynegai Gwerthfawrogiad ar gyfer rhaglenni eraill a gynhyrchwyd gan BBC Cymru Wales wedi bod yn drawiadol hefyd, gan gynnwys *Coal House* (85), *Nature of Britain* (86), *Iolo's Welsh Safari* (83), *Wild About Nature* (93), *Weatherman Walking* (85) a *Tales from the National Library* (85).
Roedd Cyfarwyddwr y Gwledydd a'r Rhanbarthau o'r farn bod y ffigurau hyn yn adlewyrchu cynulleidfa a oedd yn gwerthfawrogi'r hyn yr oedd yn ei wylio o ddifrif. Rhoddodd ganmoliaeth arbennig i ymateb BBC Cymru Wales i bencampwriaeth Cwpan Rygbi'r Byd, a fu'n llwyddiant aruthrol er gwaetha'r ffaith nad oedd BBC Cymru Wales wedi cael yr hawl i ddarlledu unrhyw ddeunydd fideo o gwbl.

Hysbysodd y Cyfarwyddwr y Cyngor ei fod o'r farn bod Partneriaeth Strategol BBC-S4C wedi bod yn llwyddiant. Roedd *Pobol y Cwm* wedi gwneud argraff fawr, ac roedd gwedd newydd y rhaglen a'i storïau cryfion wedi adfywio'r gyfres ddrama ddyddiol. Un arall o gonglfeini cyfraniad y BBC i S4C wrth gwrs oedd *Newyddion*, ac roedd y rhaglen yn parhau i fod yn graig o safbwynt darpariaeth y BBC gan ei bod yn llwyddo o ddifrif i ddod â newyddion byd-eang a newyddion lleol ynghyd.

Yn ogystal, dywedodd y Cyfarwyddwr wrth y Cyngor bod y BBC yn gwneud gwaith ymchwil ar hyn o bryd er mwyn cael gwell syniad o'r cyfryngau y mae siaradwyr Cymraeg yn eu defnyddio – boed yn wylwyr, yn wrandawyr neu'n ddefnyddwyr gwasanaethau ar-lein - er mwyn medru teilwra gwasanaethau'n fwy effeithiol ar eu cyfer. Holodd y Cyngor a allai pwysigrwydd darllediadau o'r Eisteddfod Genedlaethol gael ei ystyried yn rhan o'r adolygiad hwn, gan fod yr Eisteddfod mor bwysig yng Nghymru.

Tynnodd y Cyngor sylw at y mater a oedd yn ymwneud â hyrwyddo rhaglenni S4C ar Radio Cymru a hyrwyddo rhaglenni Radio Cymru ar S4C. Atebodd y tîm rheoli trwy ddweud bod y math hwn o hyrwyddo'n digwydd ar raglenni rygbi'r BBC ar S4C er enghraifft, lle caiff *Scrum V* ei hyrwyddo'n rheolaidd. Hysbyswyd y Cyngor hefyd bod rhaglenni Radio Cymru wedi cael eu hyrwyddo'n fwy amlwg gan S4C yn ystod y misoedd diwethaf.

Diolchodd y Cyngor i staff BBC Cymru Wales, a chanmolodd eu gwaith ardderchog a oedd wedi arwain at adroddiad calonogol iawn gan Gyfarwyddwr y Gwledydd a'r Rhanbarthau.

13. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL AC UNRHYW FATERION SY'N CODI OHONYNT

O gywiro rhai mân wallau argraffu, derbyniwyd y cofnodion fel cofnod llawn a chywir o'r cyfarfod.

Materion sy'n codi

Hysbyswyd y Cyngor y byddai'r Ymddiriedolaeth yn ymweld â Chaerdydd ym mis Tachwedd yn hytrach na mis Hydref fel y nodwyd yn flaenorol.

14 ADRODDIADAU

Yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol dros Gymru

Hysbysodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol y Cyngor bod Jane James, Carl Cooper a Dafydd Whittal wedi cytuno i gynrychioli Cyngor Cynulleidfa Cymru yn Niwrnod Cynghorau Cynulleidfa'r Ymddiriedolaeth ym mis Ebrill.

Hysbysodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol y Cyngor bod OFCOM wedi dyfarnu'r drwydded amlblecs ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru erbyn hyn, a dywedodd y byddai hynny'n rhywfaint o gymorth i wella gallu'r ardal i godi radio digidol DAB. Fodd bynnag, mynegodd y Cyngor ei bryder parhaus ynghylch y darlun gor-gadarnhaol y mae OFCOM yn ei gyflwyno o sefyllfa DAB yng Nghymru, oherwydd ni fyddai nifer o'r cwmnïau a oedd wedi ennill y trwyddedau amlblecs yn darparu gwasanaeth a fyddai ar gael ym mhob rhan o'r ardaloedd yr oedd y trwyddedau'n berthnasol iddynt.

Datganiadau Polisi Rhaglenni 2008-09 – Bu'r Cyngor yn ystyried drafft y tîm rheoli o atodiadau Radio Cymru, Radio Wales a Chymru i Ddatganiadau Polisi Rhaglenni BBC One a BBC Two.

Rheolwr Cymru

Dywedodd Rheolwr Cymru wrth y Cyngor ei bod hi a'r Pennaeth Rhaglenni Cymraeg wedi mynychu Pwyllgor Perfformiad Cynulleidfa'r Ymddiriedolaeth pan fu'n adolygu blwyddyn gyntaf Partneriaeth Strategol BBC-S4C. Hysbysodd y Rheolwr y Cyngor bod y

Pwyllgor wedi gofyn iddi a fyddai modd cytuno ag S4C ar fatricsau cyson ar gyfer mesur perfformiad. Dywedodd hefyd bod cydnabyddiaeth i gyfraniad y BBC i S4C yn fater a oedd yn peri pryder i'r Pwyllgor.

Dywedodd y Rheolwr bod y broses o lansio Freesat yn mynd rhagddi, a chynigiodd y gallai aelodau'r Cyngor ymuno â'r tîm rheoli mewn sesiwn briffio ynghylch y datblygiad hwn. Byddai'r Pennaeth Llywodraethu ac Atebolrwydd yn hysbysu'r Cyngor o ddyddiadau ar gyfer y sesiwn briffio.

GWEITHREDU: Pennaeth Llywodraethu ac Atebolrwydd

Dywedodd y Rheolwr wrth y Cyngor ei bod hi wedi mynychu Cynhadledd Arweinyddiaeth y BBC yn ddiweddar, lle bu uwch-reolwyr yn herio Cadeirydd y BBC ynghylch y pwysau a gâi ei roi ar reolwyr gan nifer a graddau'r adolygiadau a gâi eu cymell gan yr Ymddiriedolaeth. Dywedodd bod y drafodaeth ynghylch y mater wedi bod yn adeiladol.

Hysbysodd y Rheolwr y Cyngor y byddai adnoddau Cymraeg BBC Jam yn cael eu cwblhau, ac y byddent ar gael cyn gynted ag y byddai'r prosesau priodol wedi dod i ben. Roedd hi o'r farn bod hynny'n wych, ond mynegodd ei siom na fyddai'r adnoddau Saesneg a oedd yn ymwneud â chwricwlwm Cymru ar gael.

Mynegodd y Cyngor ei siom enfawr na fyddai'r adnoddau Saesneg a oedd yn ymwneud â chwricwlwm Cymru yn cael eu rhyddhau, gan nad oedd bron unrhyw ddarpariaeth fasnachol o adnoddau o'r fath ar gael fel yn achos y sector Cymraeg.

<u>Adroddiad y Bwrdd</u>
Roedd y Cyngor yn falch o allu dweud bod y ffigurau gwylio ar gyfer y gyfres ddiweddaraf o *Pawb a'i Farn* wedi bod yn dda iawn.

Hysbyswyd y Cyngor na fyddai cyflwyno sianel S4C i blant yn cael unrhyw effaith ar ddarllediadau o'r Cynulliad Cenedlaethol.

Hysbyswyd y Cyngor bod Coleg Newyddiaduraeth y BBC wedi gofyn i Adran Newyddion BBC Cymru Wales ddarparu seminar ar gyfer y coleg ar ymdriniaeth BBC Cymru Wales o'r achosion o hunanladdiad a fu ymysg pobl ifanc Pen-y-bont ar Ogwr yn ddiweddar.

15. RHAGLENNI TELEDU SAESNEG

Hysbysodd y Pennaeth Rhaglenni (Saesneg) y Cyngor mai gwasanaeth aml-sianel oedd y norm yng Nghymru bellach, a dywedodd bod llwyfannau eraill wedi tyfu hefyd. Dywedodd wrth y Cyngor yn ogystal bod gwylwyr iau yn gwylio llai o deledu. Dywedodd y byddai'r ffaith bod y dyddiad ar gyfer newid i deledu digidol yn agosáu'n golygu mai dim ond un gwasanaeth BBC TWO Wales fyddai'n cael ei ddarparu. Roedd cael llai o gyllid a sicrhau gwell gwerth i bawb yn ystyriaethau pwysig erbyn hyn.

Y prif ddyhead oedd cysylltu â phob cartref yng Nghymru mewn rhyw ffordd ac ar ryw adeg bob wythnos. Y nod oedd darparu cynnwys yr oedd cynulleidfaoedd yn ei fwynhau ac nad oeddent yn medru cael gafael arno yn unrhyw le arall. Roedd archwilio Cymru yn thema bwysig arall, yn ogystal â deall beth y mae byw yng Nghymru heddiw'n ei olygu a

deall y gorffennol. Dylai BBC Cymru Wales fod yn fan lle gall cynulleidfaoedd ddadlau, dathlu, cydymdeimlo a phryfocio - er mwyn creu mwy o dân a lleihau unrhyw ymdeimlad o gyfforddusrwydd. Y prif amcanion ar gyfer strategaeth teledu Saesneg BBC Cymru Wales oedd cyrraedd mwy o bobl (yn enwedig ymysg cynulleidfaoedd dan 50 oed), ychwanegu at gyfran BBC Cymru Wales o raglenni ar y Rhwydwaith, a chreu mwy o argraff wrth wneud hynny er mwyn gwella proffil cyffredinol BBC Wales.

Yn gyntaf, amlinellodd y Pennaeth Rhaglenni (Saesneg) y mater a oedd yn ymwneud â chyrraedd mwy o bobl. Dywedodd wrth y Cyngor mai BBC ONE yn ystod oriau brig fyddai'n cyrraedd y nifer fwyaf o bobl fel rheol, ac roedd *Coal House* a *Max Boyce's World Cup Journey* yn enghreifftiau diweddar o hynny. Hysbysodd y Cyngor y byddai cael mwy o amser yn yr arlwy'n golygu bod modd cyrraedd mwy o bobl, ond nododd y byddai'r costau uwch a fyddai'n gysylltiedig â hynny'n golygu bod yn rhaid gwneud llai o rywbeth arall.

Yna, dywedodd wrth y Cyngor bod sicrhau cyfran uwch o'r gynulleidfa na chyfran Rhwydwaith y BBC yn fodd i fesur yr hyn yr oedd buddsoddiad BBC Cymru Wales yn ei gyflawni, ac roedd y gyfran o safbwynt proffil oedran yn bwysig iawn hefyd. Dywedodd mai'r deunydd pwnc a'r ymdriniaeth ohono sy'n sicrhau llwyddiant o safbwynt cyfran, a dywedodd bod yr adeg y caiff rhaglenni eu darlledu o fewn yr arlwy'n bwysig hefyd.

Aeth y Pennaeth Rhaglenni (Saesneg) ymlaen i amlinellu pwysigrwydd creu argraff – cael rhaglenni a oedd yn codi uwchlaw'r pentwr o sianelau eraill a geir ar y teledu, a oedd yn gwneud i bawb siarad, a oedd yn darparu cynnwys sy'n cynnig profiad dyfnach a mwy rhyngweithiol i gynulleidfaoedd, ac a oedd yn rhoi gwerth hirdymor. Nid ffigurau gwylio oedd yr unig ystyriaeth bwysig; roedd darparu cynnwys a oedd yn gwneud gwahaniaeth yn bwysig hefyd, fel yn achos *The Big Welsh Challenge, Week In Week Out* a *Coal House*. Dywedodd hefyd y byddai angen i BBC Cymru Wales gael cyfres lwyddiannus megis *Coal House* bob chwarter er mwyn cyflawni ei amcanion. Wrth edrych ymlaen at y ddwy flynedd nesaf, dywedodd y byddai newid i deledu digidol yn golygu mai un gwasanaeth BBC TWO Wales fyddai ar gael. Byddai hynny'n golygu llai o oriau darlledu, a byddai'n bwysig felly bod y gwasanaeth yn creu mwy o argraff. Roedd y Rheolwr yn bwriadu buddsoddi mwy o arian yng nghynnyrch BBC ONE Wales, yn enwedig y ddarpariaeth a geir yn ystod yr oriau gwylio brig, a dywedodd bod trefnu digwyddiadau megis *Coal House* a darparu llinynnau dychwelyd cryf yn allweddol i hynny. Pwysleisiodd bwysigrwydd buddsoddi mewn datblygiadau aml-lwyfan hefyd - cysylltu rhaglenni teledu â gwasanaethau ar y we a'r radio.

Wrth gyfeirio at *genres*, pwysleisiodd y Rheolwr bwysigrwydd Newyddion o fewn yr arlwy, a dywedodd bod *Wales Today* yn hanfodol bwysig o safbwynt cyrraedd mwy o bobl a chysylltu â chynulleidfaoedd. Roedd Materion Cyfoes a Gwleidyddiaeth yn bwysig hefyd gan fod eu cynnwys yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr, a hysbysodd y Cyngor bod dull newydd o gyflwyno dadl yn cael ei ddatblygu.

Yn ogystal, dywedodd bod Chwaraeon yn bwysig o safbwynt cyrraedd pobl a sicrhau bod amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd yn cael eu denu at gynnyrch y BBC. Roedd darparu deunydd ar sawl llwyfan yn bwysig ar gyfer y dyfodol hefyd.

Drama, Comedi ac Adloniant oedd y *genres* a oedd yn ddrud i'w creu. Yng nghyd-destun Drama, dywedodd y Pennaeth Rhaglenni (Saesneg) wrth y Cyngor bod gwaith yn cael ei

wneud i ddatblygu cyfres newydd a fyddai'n cymryd lle *Belonging*, a dywedodd bod y syniad o gomisiynu rhaglenni ar y cyd â'r Rhwydwaith yn cael ei archwilio hefyd. Yn achos Comedi ac Adloniant, dywedodd bod angen sicrhau cydbwysedd rhwng defnyddio brandiau a thalentau sydd wedi ennill eu plwyf ar y naill law, ac arbrofi â syniadau newydd ffres ar y llaw arall.

Dywedodd y Rheolwr y byddai llai o raglenni'n cael eu comisiynu yn y dyfodol ond y byddai pob comisiwn yn gorfod cyfrif mwy. Yn y cyswllt hwn, cyfeiriodd at *Into the Wild with Iolo* a fyddai'n gynhyrchiad aml-lwyfan, a chyfeiriodd at *Coal House at War* a fyddai'n ceisio ymestyn ac adfywio'r brand, a fyddai'n cynnwys llawer o elfennau rhyngweithiol a digon o wybodaeth, ac y byddai modd cael mynediad iddo ar y we a'r radio. Y nod oedd sicrhau cydbwysedd rhwng gwasanaethu cynulleidfaoedd craidd a denu cynulleidfaoedd newydd.

Byddai'r cyfnodau cynnar gyda'r nos ar BBC TWO yn parhau i fod yn bwysig, ond byddai llai o raglenni'n cael eu comisiynu. Y bwriad oedd moderneiddio'r rhaglenni hynny i ddenu gwylwyr iau. Byddai mwy o ddeunydd yn cael ei ddarparu ar y we, a byddai pwyslais yn cael ei roi ar raglenni dogfen grymus yn ystod oriau brig a pharhad y rhaglenni sydd ar y teledu am 22.35 hefyd.

Dywedodd y Rheolwr mai'r prif heriau oedd gwneud i'r arian fynd ymhellach a chreu mwy o argraff â llai o arian, a dywedodd mai ei bwriad yn gryno oedd sicrhau bod BBC Cymru Wales yn fwy beiddgar, yn fwy dewr, yn fwy uchelgeisiol ac yn fwy creadigol ar draws pob llwyfan.

Holodd y Cyngor ynghylch perthynas BBC Cymru Wales â phrifysgolion o safbwynt darganfod talent newydd sydd â phethau newydd i'w dweud, a holodd y Cyngor a oedd digon o waith yn cael ei wneud i rannu gwybodaeth am rai o'r pethau anhygoel a oedd yn cael eu cyflawni trwy waith ymchwil mewn prifysgolion. Atebodd y tîm rheoli trwy ddweud bod gwaith eisoes yn mynd rhagddo i archwilio cysylltiadau â phrifysgolion ar draws Cymru a bod rhai syniadau'n cael eu datblygu.

Cymeradwyodd y Cyngor y rhaglen *Somebody's child* gan ddweud bod gwylio'r rhaglen wedi bod yn brofiad emosiynol.

16. CYFLWYNIAD I WAITH TÎM GOLYGYDDOL UNED YR YMDDIRIEDOLAETH

Dywedodd y Pennaeth Safonau Golygyddol wrth y Cyngor bod Pwyllgor Safonau Golygyddol Ymddiriedolaeth y BBC yn dyfarnu ynghylch cwynion sy'n ymwneud â chynnwys golygyddol y BBC ar y radio, y teledu a'r we; yn goruchwylio'r modd y mae'r BBC yn cydymffurfio â safonau golygyddol; yn goruchwylio system gwyno'r BBC; yn goruchwylio Adolygiadau Diddueddrwydd a gynhelir gan awduron neu banelau annibynnol; ac yn ysgogi ymchwiliadau megis yr un a gynhaliwyd gan Ron Neil yn ystod 2007 wedi iddi ddod i'r amlwg bod cystadlaethau a phleidleisiau dros y ffôn wedi cael eu trin yn anghywir. Roedd y Pwyllgor wrthi'n ymgynghori ynghylch fframwaith cwyno newydd ar gyfer holl g ynion y BBC ar hyn o bryd.

Soniodd y Pennaeth Safonau Golygyddol wrth y Cyngor am y mathau o bethau yr oedd pobl yn cwyno amdanynt, gan esbonio bod adran wybodaeth y BBC mewn mis arferol yn cael cwynion am drais, gormodedd o chwaraeon, a rhaglenni sy'n rhy swnllyd.

Dywedodd wrth y Cyngor bod tri cham yn perthyn i'r broses yr oedd y BBC yn ei defnyddio i ddelio â chwynion. Adran wybodaeth y BBC oedd yn delio â'r cam cyntaf, a'r adran honno oedd y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer llythyrau, galwadau ffôn a chwynion a ddaw trwy'r wefan. Yr Uned Cwynion Golygyddol oedd yn ymwneud â cham 2, ac Ymddiriedolaeth y BBC oedd yn gyfrifol am ddelio â cham 3. Yn ystod 2007, cafodd 124,000 o g ynion eu datrys yng ngham 1, aeth 191 o g ynion ymlaen i gam 2, ac aeth 32 o g ynion ymlaen i gam 3. Dywedodd y Pennaeth Safonau Golygyddol wrth y Cyngor bod ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad presennol ynghylch y Fframwaith Cwyno yn werthfawr ac y byddai'r cynigion terfynol yn cael eu cyhoeddi'n fuan.

17. ADOLYGIAD DIDUEDDRWYDD Y BBC O'R MODD Y CAIFF GWLEDYDD UNIGOL Y DU EU PORTREADU AR Y RHWYDWAITH

Hysbysodd yr Athro Tony King y Cyngor bod darn mawr o waith dadansoddi cynnwys yn ogystal â gwaith ymchwil i'r farchnad wedi'u comisiynu'n rhan o'r adolygiad. Hyd yn hyn roedd yr adolygiad wedi golygu siarad â nifer fawr o bobl o fewn y BBC a siarad â gwleidyddion sy'n perthyn i'r cyrff gwleidyddol datganoledig.

Roedd yr Athro o'r farn bod un cwestiwn canolog yn perthyn i'r adolygiad - a oedd y BBC yn llwyddo i ddal i fyny â'r newidiadau radical sydd wedi digwydd yn y DU dros y blynyddoedd diwethaf? Os nad oedd y BBC yn llwyddo i wneud hynny, y cwestiwn nesaf oedd pa gamau gweithredu fyddai'n ddefnyddiol i fynd i'r afael â'r broblem a gwella'r sefyllfa.

Croesawodd y Cyngor y ffaith bod yr adolygiad wedi cael ei gomisiynu. Dywedodd y Cyngor bod yr ymadrodd 'this is relevant to England only' yn cael ei glywed yn amlach ar Newyddion y Rhwydwaith ers i'r adolygiad gychwyn. Fodd bynnag, roedd o'r farn mai dim ond rhan o'r ateb oedd hynny, gan mai'r canfyddiad ar hyn o bryd yw bod y DU gyfan yn cael gwybod am ddigwyddiadau a datblygiadau yn Lloegr ond nad oedd storïau am Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael eu clywed o hyd. Yn ogystal, roedd gormod o storïau'n cael eu hadrodd o safbwynt cwbl Seisnig ar y Rhwydwaith, e.e. cyflwyno gwaharddiad ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus, dileu ffioedd parcio yn ysbytai'r GIG yng Nghymru, pencampwriaeth y Chwe Gwlad - ar ôl 3 gêm roedd Cymru ar frig y tabl ond roedd pennawd y stori ar y Rhwydwaith yn dal i sôn am ba mor dda yr oedd Lloegr yn perfformio. Tynnodd aelodau'r Cyngor sylw at stori ddiweddar a oedd yn ymwneud ag oriau agor estynedig ar gyfer meddygfeydd Meddygon Teulu yn Lloegr, lle'r oedd gwylwyr erbyn diwedd y stori yn dal i feddwl tybed beth oedd y sefyllfa yng Nghymru. Dywedodd y Cyngor bod Newyddion y BBC ar y Rhwydwaith yn euog o orsymleiddio ac yn euog felly o gamliwio storïau, a defnyddiwyd y stori ddiweddar ynghylch dileu ffioedd parcio mewn ysbytai yng Nghymru fel enghraifft o hynny. Dywedodd y Cyngor bod Newyddion y BBC ar y Rhwydwaith wedi cymharu'r datblygiad hwn yng Nghymru â'r sefyllfa yn Lloegr, gan awgrymu y byddai claf yn Lloegr yn gallu gweld meddyg ymgynghorol yn gynt - darlun ffug a gor-syml o'r sefyllfa wirioneddol ym marn aelodau'r Cyngor.

Cytunodd y Cyngor bod datganoli'n broses gymhleth, ond dywedodd nad oedd y dulliau y mae'r Rhwydwaith yn eu defnyddio i gasglu newyddion wedi cynefino â'r realiti newydd hwn eto, ac nad oeddent yn llwyddo i gyflwyno darlun cyflawn. Hysbysodd y Cyngor yr Athro King o'r ffaith bod newyddion teledu *BBC Breakfast* yn arbennig o wael yn hynny o beth, ac awgrymodd nad oedd fformat y rhaglen yn gweithio ers y broses ddatganoli gan

fod cyfran uchel o'r rhaglen ddyddiol yn amherthnasol i'r rhannau hynny o'r DU sydd y tu allan i Dde-ddwyrain Lloegr.

Dywedodd aelodau'r Cyngor eu bod nhw wedi synhwyro rhyw agwedd ffroenuchel at Gymru ar newyddion y Rhwydwaith, ac eglurwyd hynny trwy gyfeirio at agwedd ddiystyriol newyddion y Rhwydwaith at y broses a arweiniodd at sefydlu llywodraeth glymbleidiol yng Nghymru yn dilyn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Ebrill 2007. Dywedodd aelodau'r Cyngor bod defnyddio ymadroddion megis 'three main parties' a 'Government' hefyd yn enghreifftiau o derminoleg a oedd yn adlewyrchu diffyg gofal ar y Rhwydwaith.

Ofnai'r Cyngor y gallai'r BBC chwalu ac y byddai'r galw am raglenni newyddion cynhwysfawr gan wledydd unigol yn tyfu pe na bai'r BBC yn mynd i'r afael â'r materion allweddol hyn. Tynnodd y Cyngor sylw at y ffaith mai *Newyddion* oedd yr unig raglen deledu newyddion a gynhyrchir gan y BBC y tu allan i Lundain sy'n rhoi safbwynt y DU a safbwynt rhyngwladol ar newyddion.

Roedd y Cyngor yn teimlo bod y ffaith nad oedd Cyfarwyddwr y Gwledydd a'r Rhanbarthau yn aelod o Fwrdd Gweithredol y BBC wedi cyfrannu at greu diwylliant ar lefel uchaf y Gorfforaeth lle nad oedd materion tebyg i hyn yn cael sylw mewn modd amserol a phriodol.

18. CYFLWYNIAD GAN ROLY KEATING, RHEOLWR BBC TWO

Dywedodd Rheolwr BBC Two ei fod wedi bod yn ei swydd ers bron i bedair blynedd. Dechreuodd ei gyflwyniad trwy ddangos enghraifft o'r mathau o raglenni yr oedd BBC Cymru Wales yn eu cynhyrchu ar gyfer BBC TWO.

Roedd Cymru yn darparu rhaglenni ym mhob *genre* bron, a dywedodd bod hynny'n dangos y berthynas gref sy'n bodoli rhwng BBC TWO a BBC Cymru Wales. Roedd cynnwys y sianel yn esbonio'i natur - sianel eithaf poblogaidd â chymysgedd o raglenni a oedd yn cynnwys cyfran uchel o raglenni ffeithiol yn ogystal â rhai dramâu sy'n unigryw i'r sianel, megis *Torchwood*.

Fel gyda phob brand sy'n 40 oed, roedd perygl y gallai'r sianel heneiddio gyda'i chynulleidfa wreiddiol. Felly, roedd yn rhaid mynd ati'n benderfynol i adnewyddu'r cymysgedd o raglenni'n raddol a denu cynulleidfaoedd iau - yn enwedig pobl ddeallus yn eu tridegau.

Roedd *The Choir*, *The History of Britain, Louis Theroux, Heroes* a *Torchwood* ymhlith y rhaglenni a oedd wedi helpu i wneud hynny. Roedd BBC TWO wedi bod yn canolbwyntio ar ddatblygu talent hefyd.

Yr her ar gyfer y dyfodol oedd 'cadw'r olwyn ddyfeisio i droi'. Roedd y gyllideb ar gyfer Drama'n gyfyngedig, ond dywedodd y Rheolwr ei fod am ddatblygu'r *genre* hwn. Roedd Comedi'n faes anodd ei farnu. Roedd cynulleidfaoedd naill ai'n dwli ar gomedi neu'n ei chasáu, ac roeddent yn barod i fynegi eu teimladau'n glir. Roedd comedi storïol yn her fawr, ac roedd yn bwysig sicrhau nad oedd Comedi'n *genre* lle'r oedd lleisiau o Dde-ddwyrain Lloegr yn cael y lle blaenaf.

Wrth geisio adnewyddu sylfaen y gynulleidfa, yr her gyffredinol oedd parhau i edrych ar yr arlwy a rhoi cynnig ar bethau newydd megis y 'White Season' a fyddai'n cael ei ddarlledu'n fuan.

Rhoddodd y Cyngor ganmoliaeth i Reolwr BBC TWO am yr amrywiaeth o gynnyrch a geir ar y sianel, a gofynnodd a oedd BBC TWO wedi colli cyfle wrth beidio â rhoi mwy o oriau darlledu i *Coal House* a pheidio â darlledu'r gyfres ar adeg well o fewn yr arlwy. Ymatebodd y Rheolwr trwy ddweud ei fod yn derbyn y feirniadaeth, a dywedodd mai'r broblem oedd bod *Coal House* wedi ymddangos ar adeg fwyaf prysur yr arlwy ar BBC TWO ac na fu modd symud rhaglenni o gwmpas rhyw lawer. Fodd bynnag, roedd BBC TWO wedi mynd ati'n benderfynol i sicrhau bod peth o ddeunydd *Coal House* ar gael ar y sianel.

Holodd y Cyngor ynghylch y modd yr oedd Cymru yn cael ei hyrwyddo a'i chyflwyno ar BBC TWO a'r angen i ddefnyddio a chyflwyno talentau Cymru ar gynnyrch y Rhwydwaith. Ymatebodd y Rheolwr trwy ddweud bod talent Cymru ym maes cynhyrchu yn hysbys i lawer. Ymatebodd hefyd trwy amlinellu'r broses gomisiynu. Rheolwyr *Genre*, sydd â chyfrifoldeb ar draws pob sianel, a Rheolwyr Sianel oedd yn gyfrifol am gomisiynu rhaglenni. Y Rheolwyr *Genre* oedd yn gyfrifol am ffurf eu *genre*, a'r Rheolwyr Sianel oedd yn gyfrifol am ffurf arlwy eu sianel. Roedd y rheolwyr hyn yn cydweithio'n agos â'i gilydd.

19. BUSNES YR YMDDIRIEDOLAETH (yn breifat)

Hysbysodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol y Cyngor mai safbwynt yr Ymddiriedolaeth ar Adolygiad Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus OFCOM oedd y dylai'r drafodaeth sy'n ymwneud â'r adolygiad fod mor agored a deallus ag sy'n bosibl.

Yn ogystal, hysbysodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol y Cyngor bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi sefydlu pwyllgor darlledu byrdymor yn ddiweddar, ond ychydig iawn o wybodaeth oedd ar gael am y pwyllgor hyd yn hyn. Dywedodd y Pennaeth Llywodraethu ac Atebolrwydd y byddai'n anfon unrhyw wybodaeth a fyddai'n dod i'r amlwg ymlaen at aelodau'r Cyngor.

GWEITHREDU: Pennaeth Llywodraethu ac Atebolrwydd

Cymeradwyodd y Cyngor y rhaglen ddrafft ar gyfer y digwyddiad atebolrwydd a fyddai'n cael ei gynnal ym Mlaenau Ffestiniog ar 3 Ebrill.

Dogfennau Adolygu Perfformiad

Adolygu perfformiad rhaglenni'r BBC a ddarlledir gan S4C

Gofynnodd y Cyngor am nodyn ychwanegol a fyddai'n rhoi rhagor o bwyslais ar y ffaith nad oedd gan y BBC unrhyw reolaeth dros yr adeg y caiff rhaglenni eu darlledu ar S4C. Gofynnodd y Cyngor hefyd am fwy o gydnabyddiaeth a sylw i bwysigrwydd cyfraniad y BBC i S4C. Cymeradwyodd y Cyngor y ddogfen yn ffurfiol ar ôl ychwanegu'r pwyntiau hyn.

Adolygiad blynyddol y Cyngor o berfformiad y BBC yng Nghymru

Mynegodd y Cyngor ei fodlonrwydd â'r adroddiad drafft, ac awgrymodd y dylid cynnwys rhai mân newidiadau a oedd yn ymwneud ag arddull a drafftio. Awgrymodd y Cyngor rai Blaenoriaethau ar gyfer 2008-09 hefyd, yn enwedig symud bwrdd bwletin *Scrum V* i dudalennau /*Wales* ar y we. Byddai'r Cyngor yn ystyried ail ddrafft o'r ddogfen Adolygu

Perfformiad, gan gynnwys y Blaenoriaethau arfaethedig ar gyfer 2008-09, yn ei gyfarfod ym mis Ebrill.

Cynllun Gwaith Ymddiriedolaeth y BBC

Croesawodd y Cyngor y cynllun gwaith, a gofynnodd a fyddai modd ychwanegu'r gofyniad sy'n ymwneud â dechrau adolygu Partneriaeth Strategol BBC-S4C ato. Roedd y Cyngor hefyd yn teimlo y dylai'r Adolygiad Gwasanaeth o gynnyrch i blant gynnwys cynnyrch Cymraeg y BBC ar y radio a'r teledu. Croesawodd y Cyngor y pwyntiau ar dudalennau 8-9 y cynllun gwaith, a oedd yn ymwneud â phwysigrwydd sicrhau bod cynyrchiadau'r Rhwydwaith y tu allan i Lundain yn cyrraedd màs critigol. Gofynnodd y Cyngor a fyddai modd cyfeirio at bwysigrwydd lleolrwydd - a oedd wedi'i amlygu gan waith ymchwil a gomisiynwyd gan yr Ymddiriedolaeth ei hun mewn perthynas â'r Cylchoedd Gwaith Dibenion. Dylai pwysigrwydd lleolrwydd gael ei ychwanegu at adran y Cylch Gwaith Diben sy'n ymwneud â chynrychioli Gwledydd, Rhanbarthau a Chymunedau.

20. MATERION O FLAENORIAETH I YMDDIRIEDOLAETH Y BBC

1. Croesawodd y Cyngor y ffaith bod Ymddiriedolaeth y BBC yn ymgynghori â'r Cynghorau ynghylch ei chynllun gwaith.
2. Dywedodd y Cyngor ei fod yn gobeithio na fyddai unrhyw oedi pellach yn digwydd wrth gyflwyno i Ymddiriedolaeth y BBC adroddiad y gr p a oedd yn ystyried cyflenwad gwledydd unigol y DU i'r Rhwydwaith, a phwysleisiodd y Cyngor bwysigrwydd allweddol y gwaith hwn.

21. CADARNHAU DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Atgoffwyd y Cyngor y byddai'n cyfarfod ag aelodau'r gynulleidfa ar 3 Ebrill 2008 ym Mlaenau Ffestiniog, a dywedwyd bod cyfarfod nesaf y Cyngor wedi'i drefnu ar gyfer dydd Gwener 4 Ebrill ym Minffordd.

***